


*Pedair cenhedlaeth ym mhentref Llithfaen. Yn sefyll, Gwenda Evans. Yn eistedd Sianelen Pleming, Ifan Erwyn a Mrs Jane Thomas (93 oed) – a'i nain hithau Jane Williams ar gornel isaf y sampler sy gyferbyn.*




# SAMPLER Y TEULU

## Gan IOAN MAI

CREDID ar un amser fod y sampler gyda'r mwyaf diddorol o gasgliadau teuluol. Er iddo efallai fod yn dra phrin yng Nghymru mewn cymharaieth â gwledydd fel Ffrainc fel enghraifft, mae gan fardd cynnar fel Tudur Aled ei gwpled i'r 'sampler' chwedl yntau:

*"Aur wniadau a'r nodwydd*
*Arfer o'r sampler yw'r swydd."*

Mae un awdur yn priodoli'r prinder yng Nghymru i'r ffaith ei fod yn un o'r amrywiol ffyrdd i gael plant yn hyddysg yn y Saesneg.

Yn wahanol i Tudur Aled, "Siampler" a welir yng ngeiriadur Salesbury, ac eto yn yr Antiquae John Davies, dim ond y gair "Siampl". Mi fyddai hwn yn aml ar dafodau fy mhobl yn Llŷn, gydag ystyron eraill mae'n wir, ond nid wyf wedi ei glywed ers blynyddoedd meithion.

Mabwysiadaf yr enw "siampler" am ei fod yn nes ataf, ac hwyrach am i'r "aur wniadau" greu cymaint o drafferthion wrth fynd ati i dynnu llun - yr ysgrifen bron i gyd mewn edafedd euraid.

Fy mam yng nghyfraith, Mrs Jane Thomas, 93 oed a ddaeth â'r siampler i'w chanlyn o'r De a'i nain, Jane Williams, y gwelir darlun ohoni ar y gornel, a'i gwnaeth.

Roedd hi yn ferch i'r Parch Dafydd Williams, ail weinidog capel bach Gerazim (B), Cwm Cerdinen, ar ben y mynydd ym mhellafoedd Gorllewin Morgannwg.

Yn ôl Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, y Parch Dafydd Williams hwn oedd " ...y gŵr a'i gôt lwyd a'r doniau pêr, doeth mewn cyngor, dihafal i drin y bobl, a medrus i swyno cynulleidfa".

Yn ŵr ifanc aeth drwy dipyn o'i gampau, a hynny yng Nghasllwchwr, lle casglai'r hogia i gicio pêl-droed ar bnawn Sul. Y chwarae yr adeg honno, fe ymddengys yn ddigon tebyg i'r hyn a glywir heddiw - y cicio'n troi yn ymladd, a'r ymladd yn ymylu ar hanner mwrdro'n aml.

Fel ciciwr pêl roedd Dafydd Williams ar ben y rhestr, a phawb yn uchel eu clod iddo am hynny. Ond tipyn o siom i'w gyfoedion oedd dod ar ei draws un pnawn Sul wedi encilio i ddarllen ei Feibl yn y daflod. Ymunodd â chrefydd, ac fe'i bedyddiwyd.

* * *

OND YN "Cross Inn Chapel School", pan oedd Jane Williams yn bymtheg oed, mae a wnelo fy nhipyn chwilota. Yn llyfr ysgolheigaidd y Dr Huw Walters, *Canu'r pwll a'r pulpud* y darllenais fel y daeth newid ar enwau lleoedd gyda'r chwyldro diwydiannol, a wir "Cross Inn" yn mynd yn Ammanford. Ac erbyn wyth degau'r ganrif ddiwethaf roedd yn ganolfan ddiwydiannol o gryn bwys.

Newid cyflym mae'n wir mewn deng mlynedd ar hugain, er pan oedd Jane William yn y "chapel school" yn nodwyddo'i siampler mewn pentref nad oedd ond ychydig o fythynnod a thafarn, cyn dyfod o'r glo a'r alcam.

Roedd yno ddwy ysgol yn ôl yr hanesydd Dr Gomer Roberts. Un yn ysgol breifat a sefydlwyd yn 1844, oedd yn cyfarfod uwchben stabl capel Gellimanwydd. Bron i hanner cant ar lyfrau yr ysgol honno, a chyflog y sawl a hyfforddai yno yn ddegpunt ar hugain, sef ceiniogau'r plant. Y Llyfrau Gleision yn dweud fod yr ysgol yn cael ei rhedeg o dan yr hen drefn, a'r disgyblion yn eithaf truenus, ond yn gwbl ddi-glem yn ateb cwestiynau.

A 'doedd yr agwedd yma ar ddysgu fawr gwell mewn ysgol arall oedd yn Cross Inn, a elwid y "Dame School", ac a ddechreuwyd ddwy flynedd ar ôl y llall. Deugain a dau ar y llyfrau yno, a'r feistres yn derbyn wythbunt o gyflog, serch iddi fod yn athrawes gynorthwyol gyda'i mam ei hun.

Ond i ba un o'r ysgolion hyn yr aeth Jane Williams? Y "Cross Inn chapel" oedd Eglwys Annibynnol Gellimanwydd (Christian Temple), Rhydaman, a'r athro yn ôl pob tebyg yn fyfyriwr am y weinidogaeth.

Yn ôl y Dr Gomer Roberts, capel Gellimanwydd oedd y cyntaf i gael ei godi ym mhlwyf Llandybie, er nad yw'r adeilad presennol yn union yn yr un man â'r capel gwreiddiol. Bu yma gefndir ymneilltuol gyda'r mwyaf grymus mae'n siwr gen i.

Ac o ail edrych ar y siampler mae fel pe'n cadarnhau hynny, ac yn cynnig rhyw ddehongliad felly i un cwbl ddieithr fel fi. Teml o gapel gallaswn gasglu, ond o ble daeth y 'Christian Temple' i'r teitl? Fe'i hychwanegwyd yn y ganrif ddiwethaf, pan gredid fod y Gymraeg ar ddarfod amdani, meddai fy nghyfaill Mr Adrian Price, brodor o'r ardal, sydd fel y siampler ei hun wedi dod i ogleddu i Nant Gwrtheym, lle mae'n athro yn y Gymraeg.

* * *

A BETH am i fy mam yng nghyfraith Jane Thomas, geisio cwblhau y gadwyn deuluol o chwe chenhedlaeth.

"Fy mam Mary Jane Evans," meddai, "yn cofio bod yn angladd ei mam Jane, yn wyth oed, ac yn malu ei het yn rags jibiders ar lan y bedd, mor ddwfn oedd ei galar a'i hiraeth. Ei chyfnither Mary Agnes, oedd yn digwydd bod yn athrawes yn Cross Inn, yn dangos trugaredd trosti am ei bod mor ifanc, ac yn cymryd gofal ohoni.

Tithau Ifan Erwyn, nad wyt eto yn ddwyflwydd oed, wedi iti ddod yn hŷn tafl d'olwg ar siampler dy fam Sianelen ar fur dy gartra. Ac os medri ryw ddydd ychwanegu tair cenhedlaeth arall at hyn o ymgais gan dy daid, mi fyddi'n Gymro go iawn yn medru olrhain dy achau hyd y nawfed ach.